

Cawsom y fraint yn ddiweddar o fynd i Lanystumdwy i wrando ar omest brydyddu rhwng dau dim a oedd yn cynrychioli Cymdeithasau Llennyddol. Wedi bod Yno canfyddwyd fod y gair braint Yn golygu mwy na gair cwrtais, ond yn golygu Yr ystyr cynhwynol i'r gair, yn hytrach na'r ysbrydedd sydd yn cael ei roi i'r gair braint i ragflaenu'n obeithiol y dywediad: "Cân di bennill mwyn..."

Tim o Gwm Nantcol v Tim o Lanystumdwy oedd yn cystadlu - a 'iargyw' o Llyn oedd yn main-glochdar ei sylwadu.

### Cân Ddigrî 'Miss World'

Cafwyd dwy ymgais gampus ar y testun hwn. Diffyg gofod a barodd inni ei hepgor - mi gawn ni'r ddwy tro nesaf.

Parodi ar unrhyw gerdd

Cafwyd dwy barodi ddoniol a da; yn wir buasem ni'n barod i ddeud mae'r ddwy gerdd yma oedd uchafhwyt yr holl gynnyrch. Un ar y soned enwog 'Y Llwynog', R.W.P. a'r llall ar 'Cwm Pennant' Eifion Wyn. Mi fuasem ni yn barod i gytuno i ddeud mai y ddwy gerdd yma yw'r goreuon o'u bath a glywsom erioed. Yn ein barn meddwol ni mae'r ddwy (neu'r ddau) yn gyfartal o ran doniolwch, cynnwys storiol a ffyddlondeb i'r patrwm a'r mesur gwreiddiol - Marciau llawn i'r ddau.

Dyma nhw:

**Tim y Llan:** (Cwm Pennant). Mae'r awdur yn cynnwys yr ymddiheuriad hwn cyn dechrau'r parodi.

"Yn sicr cyn traethu y geiriau hyn Rhaid ymddiheuro i Eifion Wyn."

### Y Wraig Drws Nesa

Yng nghesail y gŵr sy'n drws nesa' Mae menyw a honno'n un ddel. AC yntau yn garlwm di-sylw, Sut aflwydd cudd eneth mor swel. Ni feiddiwn roi troed dros y trothwy I gynnig fy hun wrthi hi, Breuddwydio y byddaf fin nos wrth y t&n Mai 'hunk' mwya'r Cwm ydyw fi.

Mae gennyf y wraig 'ma sydd gen i - Ond gwelwyd ei harddach hebos, Heb golur yntâl yn y bore Nid hawdd ydyw aros yn glos, Er aml yn wir ei gwendidau Fe'm temtiwyd gan gyfrif y banc; Roedd tincial ei gwaddol yn cnesu Y galon, a phosed hen lanc.

Ond pan afar ambell i bnawny A'r haul yn ei anterth 'n y nen A'r fenyw drws nesa'n torheulo Mewn bicini bach, bach, Nefi Wen! Wrth sbecian yn slei dros y terfyn Sydd rhyngom a'i gardd, coeliwch fi Hawdd iawn f' ai anghofio'r addewid A wneis drw' lw, mari mi.

Ond cofiwch, rwy'n dala i garu Fy Mari ond synwn i ddim Tae'r cyfle yn dod b'ai'n demtasiwn Ond nerth i ddeud "no" fyddo im. Tro nesa ca'i 'chat' i Ngwardwr, Dwi ffansi a gofyn 'dde'n blaen, Pam, Arglwydd y gwneist wraig drws nesa' mor dlos

AC onew s'da fi mor ddi-raen?

Tim Morris Evans

Dyma barodi Tim Ardudwy:

Dewis gwneud parodi ar Soned enwog Williams Parri a wnaethant hwy. AC yn wir maent wedi llwyddo y tu hwnt i'r disgwyl yn ein barn ni. Defnyddio cymalau o linellau cyfan y gerdd wreiddiol, eu himpio a'u graffio i'w pwrpas, heb amharu o ran rhediad mydryddol, na aceniad, na chystrawenau y soned glasurol a ddewiswyd ganddynt. Ar ben hynny, mae'r stori neu'r hanes yn dilyn patrwm Y gwreiddiol heb golli 'y rhyfeddod prin'!

### Parodi i wraig drws nesa

Deglath o wrych drws nesa' pan oedd cloc: Sant Paul's yn taro tri o'r gloch yn llawn A thes mis Awst yn nhref yr 'India Rock' Yn denu dyn i orffwys gwres y nawn, Yn ddarwybod, gweld drwy'r ffenest gefn Demtasiwn hynaf dyn yn glir o'm blaen; Minnau, heb ysgog, rôl cael cip drachefn Eurhum mor llonydd - stond â delw faen. Yna, ar drawiad f'amrannant wele hi Yn troi'n osgeiddig trosodd, ac uwchlaw Ei bogel, dwy fron wynaf welais i. Yngodai, a heb iot o arwydd braw Cododd ei 'briefs' bach ffansi ac ar frys 'Sgralodd tua'r tŷ rhwng dwy rês bys.

Cafodd yr awdur yn ddiau 'weledigaeth mor ddiangof ag R.W.P. ac yn ei ffordd ei hunan mynegodd hi' - y rhyfeddod prin!

Mae'n rhaid imi ddiolch i'r beirdd am eu caniatâd, a'r fraint o gael rhoi eu gwaith yn ein Colofn: Evie Jones, Aled Jones a Ieuan Jones - hogia dawnus Cwm Nantcol sef Tim Ardudwy. AC aelodau Tim y Llan, Lanystumdwy am eu gwaith gwiw sef Mair a Morris Evans ac Arthur Evans. Daw mwy o'u gwaith yn nes ymlaen. 'Melys, moes, mwy'.

Y peth nesaf oedd llunio pennill a oedd i orffen a'r llinell osodedig: "Ni fu Deio byth 'run fath"

Cawsai hwyl ar fabol gampau Pan oedd yn fachgen yn y Cwm; Eofn ydoedd a llawn gorchest Hyd y fro a'r mannau llwm. Mentrodd fwy fwy hyd y llethrau Mewn gaeafwynt oer ei frath; Llithriad bach ar greigiau'r Rhinog - Ni fu Deio byth 'run fath!

Arthur Ifan

### Cynnig 'Evie':

Yr oedd Deio bach mor denau Fel gwelid drwyddo ymron, A phenderfynwyd ei ddsio Hefo ffisig Lax-a-ton.

A chyda y bib a'r bybls Fe ddaeth llyngyr hanner llath; AC ar ôl y diwrnod hwnnw Ni fu Deio byth 'run fath! (Allasen ni feddwl yn wir!)

### Cwpled yn cynnwys y gair 'Cawod':

Y llinell gyntaf yn un hyfryd. (Bini iddynt dalfyrro y gair 'darogan' buasai "A ddaw i ddarogan haf yn llawer gwell"). Aur gawod wedi'r gaeaf Gawn o hyd yn drogan haf.

Tim Ardudwy

Dŵr ni ddaw ym mhob cawod, I awr ddu gall llonder ddod.

(Cwpled campus - a gwreb, o'i throsi)

I gyflawnhau'r gystrawen, cofier "Cwsg ni ddaw..." J.M.J.

Tim Cymdeithas y Llan

Mae'r bardd o Neigwl wedi ymateb i'r pla dieflig sydd yn difrodi anifeiliaid ein ffermydd ac yn herio pob ymgais a wnaed ac a wneir i'w atal. Mae'n ymddangos nad oes dim ond tîm ysol sydd yn abl i ymladd y feirws melldigaid sydd yn ymosod yn ddigymrodedd ar wartheg, defaid a moch, sef cyfalaf amhrisiadwy yr amaethwyr druan. Yn ei gywydd mae Gareth Neigwl yn sôn am:

"Rhwd y tîm am fridiau taid A mwg tros fy mamogiaid."

Mae'n sôn am y byrnau solet a neb anifail i'w sigl-gnoi:

"Silwair y byrnau solet Yn fwyd ysbrydion a'r fet A'i ateb dof yn profi Bod erwau i'm hofnau i."

Ond deii gobaith ar waethaf popeth i roi min ar awen y bardd...

"...Mot b'run bynnag A dwy saeth ei glustiau sy'n Awchu am gael ail gychwyn ar ei wib ar fy chwiban I droi tir tros ludw'r tîm."

### Cwyl'r Traed a'r Genau

I lenwi fy nghorlannau Daw'r gost drwy adwy ar gau, A'r rhybudd arni'n rhwbio I'r byw'r drychineb tra bo Rhwd y tîm am fridiau taid A mwg tros fy mamogiaid. I'm buarth mud daw'r cudyll Daw angau drwy'r canau cyll. Cylch ei glwy yn y calch glân Yn tywyllu'r tai allan; Silwair y byrnau solet Yn fwyd ysbrydion a'r fet A'i ateb dof yn profi Bod erwau i'm hofnau i; Ar y lôn, sŵn tancer laeth Erys, i gasglu hiraeth.

Cogio hel o'r caeau gwag Wna anian Mot p'run bynnag, A dwy saeth ei glustiau sy'n Awchu am gael ail gychwyn Ar ei wib ar fy chwiban I droi tir tros ludw'r tîm.

Gareth Neigwl

Mae Mair Evans yn ei medru hi yn siŵr o fod. Dyma englyn campus o'i gwaith. Mae yn amserol ac yn gwneud defnydd annisgwyl o'r ymadrodd a'r cyngor slic a gaiff amaethwyr yn y dyddiau hyn. Ond mae'r bardd o Lanystumdwy yn rhoi ystyr dyrchafol, os trist iddo.

### Beddargraff i Pfermwr

O dan gwys mae'n gorffwyso - heb fochyn Heb fuchesi'w godro; Yn awr arallgyfeirio Yn nhŷ'i Dad mae enaid o.

### Mair Evans

Dyma englyn dychrynllyd a thanbeidiol. Meddylwch am allu y fatsien i yrru gyroedd o anifeiliaid i ddifancoll. Ac yna, meddwl mor fyr yw oes y fatsien! Campus o englyn yw hwn.

Matsien

Hon yw enaid goleuni - o'i hannog Ennynagoelcerthi Er ennyd o fawr ynni, Hyd eiddoes yw ei hoes hi.

Mair Evans.

Cofiwch am enw'r tŷ - Lôn Las . Llanbedrog 740289.